# Diffinio ac egluro cwmpas eich ymarfer ar lefelau ymarfer uwch – templed myfyrio

## Pam a sut i ddefnyddio'r templed hwn?

Bydd y templed hwn yn eich helpu i ddiffinio ac egluro cwmpas eich ymarfer unigol wrth i chi symud ymlaen yn eich gyrfa.

Mae cwmpas eich ymarfer yn unigryw i chi o fewn eich fframwaith rheoleiddiol a'r cyd-destun rydych yn gweithio ynddo.

Wrth i chi wneud cynnydd o ran lefel eich ymarfer, bydd angen i chi ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i benderfynu beth sydd yn rhan o'ch cwmpas a beth sydd ddim, yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau a gyda chefnogaeth gan y sefydliad rydych yn gweithio ynddo, lle bo hynny'n berthnasol.

I ddefnyddio'r templed, darllenwch drwy'r senarios isod ac ymgysylltwch â'r gweithgareddau myfyrio. Mae'r gweithgareddau myfyrio yn dechrau ar dudalen 4 ac yn ymwneud â chwmpas ymarfer unigolyn a phroffesiwn, dangos cwmpas eich ymarfer chi fel unigolyn, a'r pedair colofn ymarfer.


## 1. Cyflwyniad

Mae'r templed hwn wedi'i greu ar y cyd gan Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a'r Cyngor Osteopatheg Cyffredinol (GOsC) fel allbwn o gyfres o weminarau ar y cyd yn canolbwyntio ar gwmpas ymarfer, goruchwylio a dirprwyo ar y lefelau ymarfer uwch.

Cwmpas eich ymarfer ydy terfynau eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ac mae'n cynnwys y gweithgareddau rydych yn eu cyflawni yn eich rôl broffesiynol. Fel unigolyn cofrestredig a gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal, rhaid i chi gadw o fewn cwmpas eich ymarfer bob amser er mwyn sicrhau eich bod yn ymarfer yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn effeithiol. Mae'n debygol y bydd cwmpas eich ymarfer yn newid dros amser wrth i'ch gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ddatblygu, gan gynnwys trwy hyfforddiant neu gymwysterau ychwanegol.

Fel gweithiwr proffesiynol ymreolus, mae angen i chi wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a rhesymeg ynglŷn â'ch ymarfer er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni'r safonau sy'n berthnasol i chi. Gallai hynny gynnwys ceisio cyngor a chefnogaeth gan ddarparwyr addysg, cyflogwyr, cyrff proffesiynol, undebau ac eraill er mwyn sicrhau y caiff diogelwch defnyddwyr gwasanaethau ei ddiogelu bob amser.

## Diffinio lefelau ymarfer uwch




*Ffigur 1: Lefelau ymarfer y gweithlu*

Y tair lefel ymarfer uwch ydy estynedig/arbenigol, uwch ac ymgynghorol (gweler Ffigur 1). I unigolion cofrestredig, gallai'r lefelau ymarfer eich helpu - i adnabod cwmpas eich hymarfer a meysydd ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus (DPP), wrth i chi barhau i weithio fel ymarferwr ymreolus.

Mae'r geiriad ar gyfer y lefelau ymarfer yn amrywio ychydig rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig (defnyddir 'arbenigol' yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond yng Nghymru a Lloegr, defnyddir 'estynedig' i ddisgrifio'r un lefel). Mae'r dulliau cyffredinol o weithio, gan gynnwys y disgrifiadau o bob lefel ymarfer, yn cyfateb yn agos i'w gilydd.

Nid yw'r lefelau ymarfer hyn yn ofyniad rheoleiddiol. Datblygwyd nhw fel rhan o waith sydd ar y gweill i ddarparu eglurder ynglŷn â dilyniant o fewn gyrfaoedd, ac i gefnogi'r addysg, hyfforddiant, llywodraethiant a throsolwg sefydliadol sydd eu hangen er mwyn cefnogi datblygiad rolau ar gyfer gweithwyr proffesiynol profiadol ym maes iechyd a gofal.

## Diffinio cwmpas ymarfer ar lefelau uwch

Yn wahanol i'r lefelau ymarfer, mae'r term 'cwmpas ymarfer' yn gysyniad rheoleiddiol. Mae'n cyfeirio at derfynau eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiad, ac mae'n cynnwys y gweithgareddau rydych yn eu cyflawni yn eich rôl broffesiynol.[1]

---

[1] HCPC (2024) Cwmpas ymarfer | Yr HCPC

Mae safonau'r HCPC a'r GOsC yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl unigolion cofrestredig, ar bob lefel gyrfa ac ym mhob sector a lleoliad, gydnabod a gweithio oddi mewn i derfynau cwmpas eu hymarfer.[2] Mae disgwyl hefyd i unigolion cofrestredig gwblhau gweithgareddau DPP sy'n berthnasol i gwmpas eu hymarfer, gyda'r cyfan yn rhan o ddiogelu'r cyhoedd.

**Mae cwmpas ymarfer yn broses fyw sy'n esblygu.** Wrth i chi symud ymlaen yn eich gyrfa, byddwch chi'n ennill sgiliau a phrofiadau newydd (gan gynnwys trwy gymwysterau ffurfiol a ffurfiau eraill ar DPP), er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.[3]

Wrth ystyried a yw gweithgaredd o fewn cwmpas eich ymarfer, gallai ystyried y canlynol fod o gymorth i chi:

- A ydw i'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni'r gweithgaredd yn ddiogel ac yn effeithiol?
- A allaf fi gwblhau hyfforddiant neu dderbyn cefnogaeth arall, megis goruchwyliaeth, a fydd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i mi sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r gweithgaredd yn ddiogel ac yn effeithiol?
- A yw'r gweithgaredd yn un a gyfyngir gan y gyfraith, er enghraifft, rhoi presgripsiynau ac, os felly, a ydw i'n gallu ei wneud yn gyfreithlon?
- A yw fy nhrefniadau indemniad proffesiynol yn cwmpasu'r gweithgaredd?


Mae **cwmpas ymarfer yn cynnwys dwy elfen ryngberthynol: unigolyn a phroffesiwn**. Mae'r ddwy yn esblygu dros amser.

Wrth i chi wneud cynnydd yn eich ymarfer, gallai cwmpas eich ymarfer unigol ymestyn mewn modd priodol y tu hwnt i'r cwmpas a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer eich proffesiwn (gweler Ffigur 2) er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Nid yw'n datblygu mewn modd ynysig: yn hytrach, rhaid datblygu cwmpas estynedig oherwydd ei fod yn mynd i'r afael ag angen yn y gwasanaeth. Rhaid ei ddatblygu gyda throsolwg sefydliadol ar waith a chynllunio gweithlu yn sail iddo.

Bydd y senarios yn ddiweddarach yn y templed hwn yn eich helpu i fyfyrio ynglŷn â'r syniad bod cwmpas ymarfer yn broses fyw sy'n esblygu.

---

[2] B. Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad – Safonau Ymarfer Osteopatheg
[3] Mae'r diffiniad o 'ddefnyddiwr gwasanaethau' yn ymadrodd eang sy'n cyfeirio at 'y rhai sy'n defnyddio, neu'n cael eu heffeithio gan wasanaethau gweithiwr proffesiynol sy'n gofrestredig gyda'r HCPC'. Felly, mae defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys pobl sydd ag anghenion iechyd a gofal, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ogystal â myfyrwyr, dysgwyr, a cydweithwyr, gan gynnwys pobl y mae unigolion cofrestredig yn rheolwr llinell arnynt. HCPC (2018) Ymwneud defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr | Yr HCPC




*Ffigur 2: Cwmpas ymarfer unigolyn a phroffesiwn fel proses fyw*[4]

## 2. Gweithgareddau myfyrio

Mae'r adran hon yn darparu set o gysyniadau a chwestiynau myfyriol y gallwch eu hystyried, er mwyn eich cynorthwyo i ddiffinio ac egluro cwmpas esblygol eich ymarfer wrth i chi symud i lefelau ymarfer uwch, gan gynnwys rolau a lleoliadau gwahanol. Efallai yr hoffech chi ddefnyddio hyn fel rhan o'ch ymarfer myfyriol, gan gynnwys mewn prosesau goruchwylio neu werthuso. Os ydych chi'n gweithio mewn sefydliad sy'n cyflogi, gallech chi ystyried ei mapio i'ch disgrifiad swydd.

I gael rhagor o adnoddau ar gwmpas ymarfer, ewch i wefan yr HCPC.

### Cwmpas ymarfer unigolyn a phroffesiwn

Mae cwmpas ymarfer (unigolyn a phroffesiwn) yn esblygu ac yn newid dros amser. Ystyriwch y senarios hyn a myfyriwch ynglŷn â'r graddau y maent yn berthnasol i'ch sefyllfa a'ch proffesiwn chi.

#### *1. Mae cwmpas ymarfer proffesiwn yn newid dros amser*

Yn y 1980au a dechrau'r 1990au, nid oedd radiograffyddion yn ymwneud â phibellu. Neidiwch ymlaen i'n dyddiau ni heddiw a, gyda'r hyfforddiant priodol, mae hyn yn weithgaredd sydd wedi'i ymgorffori yng nghwmpas ymarfer y proffesiwn, gan gynnwys ar gyfer rhai pobl sy'n gweithio ar raddfeydd lefel mynediad.

---

[4] Downie et al (2023)

**Myfyrio**

- I ba raddau mae'r enghraifft hon yn berthnasol i'ch proffesiwn chi?
- Allwch chi feddwl am enghreifftiau penodol lle mae cwmpas ymarfer eich proffesiwn chi
wedi esblygu neu lle gallai esblygu yn y dyfodol?

## *2. Mae cwmpas ymarfer unigolyn yn newid dros amser o fewn proffesiwn*

Mae o fewn cwmpas ymarfer therapi galwedigaethol i roi presgripsiwn ar gyfer cadair olwyn wedi'i theilwra a phecynnau eistedd i alluogi unigolyn i gymryd rhan yn eu gweithgareddau beunyddiol. Mae Sanj yn treulio deg mlynedd yn gweithio mewn gwasanaeth cadeiriau olwyn gan ddechrau fel rhywun cymharol ddibrofiad, gyda goruchwyliaeth a chefnogaeth, ac yna wneud cynnydd yn ei ymarfer, ei wybodaeth a'i sgiliau drwy brofiad a hyfforddiant ychwanegol. Mae hefyd yn cynorthwyo pobl eraill i wneud yr un peth. Felly, mae'r gweithgaredd o roi presgripsiwn ar gyfer cadair olwyn a phecynnau eistedd o fewn cwmpas ei ymarfer fel unigolyn a chwmpas ymarfer ei broffesiwn.

Ond fel ymarferydd unigol, mae Sanj yn symud yn ddiweddarach i rôl arweiniol strategol genedlaethol yng Ngholeg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol ac nid yw wedi gweithio mewn gwasanaeth cadeiriau olwyn ers dros 15 mlynedd. Mae'n parhau i ymarfer yn ddiogel o fewn cwmpas ei ymarfer oherwydd bod angen sgiliau gwahanol ar gyfer ei rôl bresennol. Ond mae presgripsiynau cadeiriau olwyn a phecynnau eistedd bellach y tu hwnt i gwmpas ei ymarfer fel unigolyn. Petai'n dymuno ehangu cwmpas ei ymarfer i gynnwys y gweithgaredd eto, byddai angen iddo ymgymryd â dysgu a hyfforddiant ychwanegol er mwyn gallu gwneud hynny'n ddiogel ac yn effeithiol, gan gynnwys tynnu ar ymchwil cyfoes i lywio ei ymarfer.

**Myfyrio**

- I ba raddau mae'r enghraifft hon yn berthnasol i gwmpas eich ymarfer fel unigolyn?
- Allwch chi nodi adegau penodol yn eich gyrfa pan mae eich cwmpas wedi newid?
- Sut gallwch chi roi tystiolaeth o'r ffordd y gwnaethoch chi gefnogi esblygiad cwmpas eich ymarfer eich hun, er enghraifft drwy brofiad, cymwysterau, goruchwyliaeth neu gefnogaeth mentora ychwanegol?

*3. Mae cwmpas ymarfer unigolyn yn ymestyn y tu hwnt i'r cwmpas ymarfer a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer y proffesiwn mewn ymarfer clinigol.*

Yn 2015, roedd Jo yn gweithio fel ffisiotherapydd profiadol oedd ag angerdd dros gefnogi oedolion hŷn sy'n byw gydag eiddilwch yn Lloegr. Gwnaethon nhw gwblhau astudiaeth ôl-radd ychwanegol
ar lefel meistr i ddod yn ymarferydd clinigol uwch (ACP) – rôl amlbroffesiwn oedd yn golygu bod cwmpas eu hymarfer yn ymestyn y tu hwnt i gwmpas eu proffesiwn gwreiddiol. Nhw oedd yr ACP cyntaf yn eu hymddiriedolaeth ysbyty. Defnyddiodd Jo eu crebwyll proffesiynol a'u rhesymu clinigol i ddatblygu cwmpas eu hymarfer er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaethau, gan gynnwys gweithgareddau fel cynllunio gofal uwch, tynnu gwaed a phibellu ac archebu pelydr-X. Fyddai rhai o'r gweithgareddau hyn, ar y pryd, ddim yn cael eu hystyried yn rhai oedd oddi mewn i'r cwmpas ymarfer a dderbynnid yn gyffredinol ar gyfer ffisiotherapi.

Cafodd Jo hyfforddiant ar gyfer yr elfennau newydd ac roedd angen iddynt ddangos eu gallu i'w gwneud yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd goruchwyliaeth reolaidd wedi eu cynorthwyo i fyfyrio ynglŷn â chwmpas eu hymarfer fel unigolyn, gan gynnwys ei esblygiad parhaus er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr eu gwasanaeth, a oedd yn aml yn gymhleth. Roedd y disgrifiad swydd yn adlewyrchu cwmpas eu hymarfer fel unigolyn, ac roedd y rôl yn cael cefnogaeth y Meddyg Ymgynghorol Geriatreg.

Roedd llywodraethiant a throsolwg yn cael eu darparu gan yr ymddiriedolaeth gan gynnwys adolygu parhaus ar y rôl, gan ddefnyddio canllawiau cenedlaethol ynglŷn â rhoi rolau ymarfer uwch ar waith.
Yn ddiweddarach, cafodd rhagor o swyddi ACP eu creu.

Parhaodd Jo yn eu rôl ACP am bum mlynedd arall a buont yn tyfu cwmpas eu hymarfer fel unigolyn dros y cyfnod hwnnw er mwyn ymateb i newidiadau yn y gwasanaeth a ddarperid. Roeddent wedi gallu defnyddio eu crebwyll proffesiynol i wneud penderfyniadau cynyddol gymhleth, gan ddefnyddio rhesymu clinigol fel rhan o'r broses o ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol, o fewn tîm amlbroffesiwn.

**Myfyrio**

- I ba raddau mae cwmpas eich ymarfer fel unigolyn yn gyson â neu'n ymestyn y tu hwnt i gwmpas ymarfer eich proffesiwn?
- I ba raddau mae hynny wedi newid wrth i gwmpas ymarfer eich proffesiwn barhau i esblygu hefyd?
- Sut gallwch chi roi tystiolaeth o'r ffordd rydych chi'n cefnogi esblygiad cwmpas eich ymarfer eich hun, er enghraifft drwy brofiad, cymwysterau, goruchwyliaeth neu gefnogaeth mentora ychwanegol?
- I ba raddau rydych chi'n gweld cwmpas eich ymarfer yn esblygu yn y dyfodol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau?
- Beth yw'r camau nesaf i'w cymryd er mwyn cyflawni hyn, er enghraifft profiadau, cymwysterau, cynllunio achos busnes, ac adolygu trefniadau indemniad proffesiynol?

Hyd yma, mae'r senarios enghreifftiol wedi eu lleoli'n bennaf o fewn ymarfer clinigol, ond mae esblygiad cwmpas ymarfer yn berthnasol i rolau mewn gwahanol leoliadau a sectorau gan gynnwys rolau addysg, arweinyddiaeth a rheolaeth, ac ymchwil. Ystyriwch y senarios nesaf hyn.

4. *Mae cwmpas ymarfer unigolyn yn ymestyn y tu hwnt i'r cwmpas ymarfer a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer y proffesiwn, gan gynnwys mewn addysg, arweinyddiaeth ac ymchwil.*

Mae Adam yn osteopath sy'n cynnal practis amlddisgyblaethol yn gweithio mewn dull rhyngddisgyblaethol i ddarparu gofal cyhyrysgerbydol, gan gyflogi ffisiotherapyddion, osteopathiaid, therapyddion chwaraeon a seicolegwyr ar draws tri lleoliad clinig. Mae'r practis yn cynnig lleoliadau hyfforddi i fyfyrwyr AHP. Dros amser, mae Adam yn camu'n ôl o waith clinigol ymarferol i ganolbwyntio mwy ar agweddau gweinyddol a strategol cynnal y clinigau: rheoli'r tîm staff cynyddol, cysylltu â darparwyr addysg, a darparu goruchwyliaeth a mentora. Mae'n awyddus i gyfrannu at ddatblygiad dulliau rhyngddisgyblaethol o weithio mewn gofal iechyd, ac mae'n gweithio gydag adran ymchwil gyhyrysgerbydol prifysgol leol i ddatblygu proses ymchwil a gwerthuso barhaus i fesur graddfeydd ymateb mewn cleifion sydd â phoen cronig.

**Myfyrio**

- Nodwch pwy yw'r bobl y mae'r gwasanaethau y mae Adam yn eu darparu yn effeithio arnynt
  (er enghraifft, pwy ydy defnyddwyr gwasanaeth Adam)?
- Ym mha ffyrdd all Adam dangos ei fod yn parhau i fodloni'r safonau a bennwyd gan ei reoleiddiwr – y GOsC?
- Os ydych chi'n cael eich rheoleiddio gan yr HCPC ac yn gweithio mewn rôl rheoli ac arweiniad strategol ryngddisgyblaethol debyg, sut gallwch chi barhau i fodloni'r safonau a bennwyd gan eich rheoleiddiwr?
- Allwch chi nodi adegau penodol yn eich gyrfa pan mae eich cwmpas wedi newid ac esblygu mewn perthynas â rolau mewn gweithgareddau addysg, arweinyddiaeth neu ymchwil?
- Sut gallwch chi roi tystiolaeth o'r ffordd y gwnaethoch chi gefnogi esblygiad cwmpas eich ymarfer eich hun (er enghraifft drwy brofiad, cymwysterau, goruchwyliaeth neu gefnogaeth mentora ychwanegol)?

5. *Mae cwmpas ymarfer unigolyn yn ymestyn y tu hwnt i'r cwmpas ymarfer a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer y proffesiwn mewn rôl addysg ac arweinyddiaeth, gan olygu bod angen trefniadau indemniad proffesiynol ychwanegol.*

Mae Paula yn therapydd iaith a lleferydd ac, ar ôl blynyddoedd yn cyfuno ymarfer annibynnol ag academia, mae hi nawr yn cynnal ei hymgynghoriaeth dysgu a datblygu gweithlu ei hun, fel cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig. Mae hi'n gweithio ar draws nifer o gontractau ac yn arbenigo yn natblygiad strategol cefnogaeth ar gyfer datblygu proffesiynol. Mae hi wedi sefydlu enw da yn rhyngwladol ac mae un o'i chontractau yn golygu ei bod yn gweithio gyda sefydliad cenedlaethol yn Awstralia, ar gyfer proffesiwn gwahanol i'w phroffesiwn ei hun, sydd eisiau adolygu eu canllawiau ar gyfer goruchwylio. Mae hynny o fewn cwmpas ei hymarfer fel unigolyn, ac mae hi'n gallu rhoi tystiolaeth o hynny drwy ei chyhoeddiadau, ei phrofiadau a'i chymwysterau ôl-radd ychwanegol. Fodd bynnag, mae hyn y tu hwnt i'r cwmpas ymarfer a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer ei phroffesiwn gwreiddiol. At hynny, nid yw ei threfniadau atebolrwydd proffesiynol yn ymestyn i gynnwys gweithio gyda chydweithwyr dramor yn hyn o beth. Felly, mae angen i Paula wneud trefniadau atodol ar gyfer ei hindemniad proffesiynol, sy'n golygu bod angen polisi yswiriant ar wahân i'r un sy'n ei hyswirio ar gyfer elfennau eraill ei gwaith drwy ei chorff proffesiynol.

**Myfyrio**

- Allwch chi nodi adegau penodol yn eich gyrfa pan mae eich cwmpas wedi newid ac esblygu mewn perthynas â gweithgareddau addysg, arweinyddiaeth neu ymchwil?
- Sut gallwch chi roi tystiolaeth o'r ffordd y gwnaethoch chi gefnogi esblygiad cwmpas eich ymarfer eich hun, er enghraifft drwy brofiad, cymwysterau, goruchwyliaeth neu gefnogaeth mentora ychwanegol?
- I ba raddau mae cwestiwn ynglŷn â threfniadau indemniad proffesiynol ychwanegol yn berthnasol i chi, gan gynnwys os ydych chi'n gweithio fel masnachwr unigol, o fewn cwmni cyfyngedig neu mewn meysydd eraill nad ydynt yn dod o dan eich trefniadau presennol?
- Os nad ydych chi'n siŵr, pwy fyddai'n gallu rhoi cyngor i chi?

## Dangos cwmpas eich ymarfer fel unigolyn

Mae amryw o adnoddau eraill ar gael gan eich rheoleiddiwr a'ch corff proffesiynol i'ch cynorthwyo chi i ddiffinio ac egluro cwmpas eich ymarfer. Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf o gyrff proffesiynol fframweithiau datblygu gyrfa (neu broffesiynol), ac mae llawer o'r rhain yn cyfeirio at lefelau ymarfer uwch. Gallwch chi fapio eich hunan i mewn i'r rhain, ochr yn ochr ag adnoddau amlbroffesiwn, er mwyn dangos lefel eich ymarfer a chanfod meysydd ar gyfer DPP parhaus.

Mae dau gysyniad yn ymddangos mewn nifer o adnoddau: y pedair colofn ymarfer a'r continwwm dechreuwr i arbenigwr. Nid yw'r naill na'r llall o'r cysyniadau hyn yn ofyniad rheoleiddiol, ond maent hefyd yn gallu helpu i lywio eich crebwyll proffesiynol wrth i chi ddiffinio ac egluro cwmpas eich ymarfer.

## Y pedair colofn ymarfer


Ceir pedair colofn ymarfer ac mae rhywfaint o'r geirio'n amrywio rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig a rhwng proffesiynau (gweler Tabl 1), er bod y cysyniadau creiddiol yn debyg. Yn gyffredinol, caiff pob colofn ei diffinio fel a ganlyn:

- Ymarfer clinigol / proffesiynol: y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn darparu **gofal iechyd o safon uchel sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn**
- Hwyluso dysgu / addysg: y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn galluogi **dysgu effeithiol yn y gweithle i'ch hunan ac i bobl eraill**
- Arweinyddiaeth (a rheolaeth): y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn **arwain eich hunan a phobl eraill ac er mwyn cyflawni cyfrifoldebau rheoli**
- Tystiolaeth, ymchwil a datblygu (ac arloesi): y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn ymgysylltu â **gweithgareddau ymchwil, cymhwyso tystiolaeth wrth ymarfer er mwyn llywio ymarfer a gwella gwasanaethau**

| Yr Alban – NHS Education Scotland | Lloegr – Centre for Advancing Practice | Cymdeithas Orthopteg Prydain ac Iwerddon* | Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd* |
|---|---|---|---|
| Ymarfer clinigol | Ymarfer clinigol | Ymarfer clinigol | Ymarfer proffesiynol |
| Hwyluso dysgu | Addysg | Hwyluso dysgu | Hwyluso dysgu |
| Arweinyddiaeth | Arweinyddiaeth a rheolaeth | Arweinyddiaeth a rheolaeth | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
| Tystiolaeth, ymchwil a datblygu | Ymchwil | Tystiolaeth, ymchwil ac arloesi | Tystiolaeth, ymchwil ac arloesi |

*Tabl 1: Enghreifftiau eglurhaol o rai o'r gwahaniaethau terminoleg ar gyfer y pedair colofn ymarfer (*fe'u gelwir yn beuoedd ymarfer yn hytrach na cholofnau)*

Mae disgwyliad yn y gweithlu y bydd pobl sy'n gweithio ar y lefelau ymarfer uwch ac ymgynghorol yn gweithio ar draws pob un o'r pedair colofn ymarfer, ac fe geir pumed colofn ('ymgynghoriaeth ar draws y colofnau') ar y lefel ymarfer uchaf. Fodd bynnag, bydd maint pob colofn yn amrywio yn ôl cwmpas eich ymarfer (gweler Ffigur 3) a'ch rôl/rolau.




*Ffigur 3: Enghreifftiau eglurhaol o'r amrywiaeth yn y colofnau ar gyfer rolau gwahanol.*

Gallai'r colofnau gynyddu neu leihau gan ddibynnu ar natur cynnydd eich gyrfa, er enghraifft, os byddwch yn newid eich rôl.

## 6. *Gall colofnau ymarfer symud i fyny ac i lawr drwy gydol eich gyrfa*

Mae Bev yn dechrau ei gyrfa mewn ymarfer clinigol ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae hi'n cefnogi myfyrwyr gyda eu dysgu seiliedig ar ymarfer (addysg a dysgu), yn arwain tîm bychan o fewn ei hadran (arweinyddiaeth a rheolaeth), yn gweithio fel cynrychiolydd lleol i'r undeb llafur (arweinyddiaeth a rheolaeth) ac yn cynnal awditau rheolaidd o berfformiad y tîm yn ôl safonau cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth (ymchwil a thystiolaeth).

Yn ddiweddarach yn ei gyrfa, mae Bev yn symud i rôl arweinyddiaeth strategol rhanbarthol. Mae maint y golofn glinigol yn lleihau, ac mae'r golofn arweinyddiaeth yn tyfu'n sylweddol. Mae cyfle i gael secondiad i gydweithio â'r brifysgol leol yn arwain hefyd at gynnydd ym maint y golofn ymchwil a thystiolaeth. Mae Bev yn parhau i gefnogi dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer drwy leoliadau gwaith arweinyddiaeth.

**Myfyrio**

- O feddwl am eich rôl bresennol, sut byddech chi'n cynrychioli maint pob colofn yn weledol?
- I ba raddau mae maint pob colofn wedi newid yn ystod eich gyrfa hyd yma?
- I ba raddau rydych chi'n gyfarwydd â'r adnoddau sydd ar gael gan eich corff proffesiynol, megis fframwaith datblygu gyrfa, i'ch cynorthwyo i ddangos cwmpas eich ymarfer ar draws pob colofn / pau ac i ganfod meysydd ar gyfer DPP?

## *7. Cynhwyso'r pedair colofn ymarfer i'ch rôl*


Defnyddiwch y templed hwn i ddiffinio ac egluro'r elfennau yn eich ymarfer sy'n ymestyn dros bob un o'r pedair colofn ymarfer. Ystyriwch effaith unrhyw waith gwirfoddol a wnewch a sut gall hynny gefnogi eich datblygiad proffesiynol parhaus, er enghraifft gwirfoddoli fel llywodraethwr ysgol yn darparu profiad arweinyddiaeth strategol.

| | |
|---|---|
| Ymarfer clinigol / proffesiynol | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
| Addysg / hwyluso dysgu | Ymchwil a thystiolaeth |

## *8. Y continwwm dechreuwr i arbenigwr a gwaith cyffredinol i waith arbenigol*

Mae Ffigur 4 yn ddiagram sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio’n helaeth ym maes datblygu'r gweithlu i gynorthwyo pobl i fyfyrio ynglŷn â lefel a chwmpas eu hymarfer. Mae’r lefelau ymarfer (dechreuwr i arbenigwr) yn croestorri â’r continwwm cwmpas ymarfer (gwaith cyffredinol i waith arbenigol).

Mae Ffigur 4 yn helpu i fynegi y gall cwmpas ymarfer fod yn gul os bydd unigolyn cofrestredig yn dewis arbenigo, er enghraifft mewn therapi llaw, neu’n eang os bydd unigolyn cofrestredig yn dewis gweithio mewn maes cyffredinol fel gofal sylfaenol.




*Ffigur 4: Y continwwm dechreuwr i arbenigwr a gwaith cyffredinol i waith arbenigol*

**Myfyrio**

- Ble byddech chi’n gosod eich hun ar y continwwm ar hyn o bryd a pham? Sut gallech chi roi tystiolaeth eich bod yn y safle hwnnw?
- O fyfyrio ynglŷn â’ch gyrfa hyd yma, nodwch adegau o drawsnewid (er enghraifft, dyrchafiad neu symud o un sector i un arall). A oes adegau pan rydych chi wedi symud, er enghraifft, o fod yn uwch-glinigydd arbenigol i fod yn academydd dechreuol ac wedi gweithio’ch ffordd yn ôl i fyny dros amser gyda dysgu a phrofiad ychwanegol?

Defnyddiwch y gofod hwn i gofnodi nodiadau ac unrhyw gamau dilynol yr hoffech eu hystyried

© Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
2 Mawrth 2026
Cod y cyhoeddiad: 02032026 POLPUB